

Cwynion Cam 1: Enghreifftiau o Ganlyniadau

Cwyn am wastraff heb ei gasglu

Cadarnhawyd

Annwyl Mrs. Evans,

Diolch am godi eich pryderon gyda ni. Ysgrifennaf i roi gwybod bod eich cwyn wedi'i chadarnhau.

Ar ôl edrych yn ofalus ar yr hyn a ddigwyddodd, mae'n amlwg na chawsom ni bethau'n iawn i chi. Mae'n wirioneddol ddrwg gennyf am yr effaith a gafodd hyn ac am y rhwystredigaeth a achosodd.

Dangosodd ein hadolygiad nad oedd eich gwastraff ailgylchu wedi'i gasglu ar y diwrnod a drefnwyd gan fod y criw wedi cofnodi'r stryd yn anghywir fel stryd anhygyrch, er nad oedd unrhyw rwystr ar y pryd, ac rydym yn cydnabod nad oedd eich profiad yn adlewyrchu'r safon y dylech bob amser allu dibynnu arni.

Er mwyn gwneud pethau'n iawn, byddwn yn trefnu casgliad ar unwaith ac yn atgoffa'r criw o'r weithdrefn gywir ar gyfer cofnodi problemau mynediad, fel nad yw hyn yn digwydd eto. Byddwn hefyd yn cymryd hyn fel cyfle i ddysgu a gwneud gwelliannau.

Diolch i chi unwaith eto am dynnu ein sylw at y mater hwn. Mae eich adborth yn ein helpu i ddeall beth y gallwn ei wneud yn well i wella ein gwasanaethau.

Cofion gorau,

Ni chadarnhawyd

Annwyl Mr. Davies,

Diolch am godi eich pryderon gyda ni. Ysgrifennaf i roi gwybod nad yw eich cwyn wedi'i chadarnhau.

Rwyf am i chi wybod ein bod wedi cymryd amser i edrych yn ofalus ar bopeth y gwnaethoch chi ei rannu.

Ar ôl adolygu'r wybodaeth oedd ar gael, gwelsom nad oedd y criw gwastraff yn gallu casglu eich sbwriel oherwydd bod y bagiau wedi'u gosod y tu mewn i'ch ffin yn hytrach nag yn y man casglu wrth ymyl y palmant, sy'n golygu nad oeddent wedi'u cyflwyno i'w casglu yn unol â chanllawiau'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar hyn, roedd y camau a gymerwyd ar y pryd yn briodol ac yn unol â'n prosesau. Rwy'n sylweddoli efallai nad dyma'r canlyniad yr oeddech chi'n gobeithio amdano, ond rwy'n ddiolchgar eich bod wedi rhoi cyfle i ni edrych ar yr hyn a ddigwyddodd.

Diolch eto am gysylltu â ni. Mae eich adborth yn bwysig, ac mae'n ein helpu i barhau i wella ein gwasanaethau.

Cofion gorau,

Cwyn Sŵn

Cadarnhawyd

Annwyl Mr. Morgan,

Diolch am godi eich pryderon gyda ni. Ysgrifennaf i roi gwybod bod eich cwyn wedi'i chadarnhau.

Ar ôl edrych yn ofalus ar yr hyn a ddigwyddodd, mae'n amlwg na chawsom ni bethau'n iawn i chi. Mae'n wirioneddol ddrwg gennyf am yr effaith a gafodd hyn ac am y rhwystredigaeth a achosodd.

Dangosodd ein hadolygiad, er eich bod wedi adrodd am sŵn yn hwyr yn y nos dro ar ôl tro o eiddo cyfagos dros sawl wythnos, na wnaethom drefnu ymweliad dilynol yn brydlon na rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y camau yr oeddem yn eu cymryd. Rydym yn cydnabod nad oedd eich profiad yn adlewyrchu'r safon y dylech bob amser allu dibynnu arni.

Er mwyn gwneud pethau'n iawn, byddwn yn trefnu bod swyddog yn ymweld o fewn 48 awr, gan sicrhau bod yr achos yn cael ei fonitro fel mater o flaenoriaeth. Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd trwy gydol y broses, a byddwn hefyd yn cymryd hyn fel cyfle i ddysgu a gwneud gwelliannau.

Diolch i chi unwaith eto am dynnu ein sylw at y mater hwn. Mae eich adborth yn ein helpu i ddeall beth y gallwn ei wneud yn well i wella ein gwasanaethau.

Cofion gorau,

Ni chadarnhawyd

Annwyl Mrs. Hughes,

Diolch am godi eich pryderon gyda ni. Ysgrifennaf i roi gwybod nad yw eich cwyn wedi'i chadarnhau.

Rwyf am i chi wybod ein bod wedi cymryd amser i edrych yn ofalus ar bopeth y gwnaethoch chi ei rannu.

Ar ôl adolygu'r wybodaeth sydd ar gael, gwelsom fod swyddogion wedi cynnal sawl ymweliad, gan gynnwys monitro gyda'r nos, ond ni chafwyd tystiolaeth o unrhyw aflonyddwch sŵn statudol, ac roedd y lefelau sŵn a gofnodwyd o fewn terfynau derbyniol.

Yn seiliedig ar hyn, roedd y camau a gymerwyd ar y pryd yn briodol ac yn unol â'n prosesau.

Rwy'n sylweddoli efallai nad dyma'r canlyniad yr oeddech chi'n gobeithio amdano, ond rwy'n ddiolchgar eich bod wedi rhoi cyfle i ni edrych ar yr hyn a ddigwyddodd.

Diolch eto am gysylltu â ni. Mae eich adborth yn bwysig, ac mae'n ein helpu i barhau i wella ein gwasanaethau.

Cofion gorau,

Cwyn Rheoli Traffig

Cadarnhawyd

Annwyl Ms Rees,

Diolch am godi eich pryderon gyda ni. Ysgrifennaf i roi gwybod bod eich cwyn wedi'i chadarnhau.

Ar ôl edrych yn ofalus ar yr hyn a ddigwyddodd, mae'n amlwg na chawsom ni bethau'n iawn i chi. Mae'n wirioneddol ddrwg gennyf am yr effaith a gafodd hyn ac am y rhwystredigaeth a achosodd.

Dangosodd ein hadolygiad fod yr arwyddion cau ffyrdd dros dro ar gyfer y dargyfeiriad wedi'u lleoli'n anghywir, gan achosi i yrwyr fynd i mewn i'ch stryd er nad yw'n llwybr dynodedig. Arweiniodd hyn at bryderon traffig a diogelwch diangen, ac rydym yn cydnabod nad oedd eich profiad yn adlewyrchu'r safon y dylech bob amser allu dibynnu arni.

Er mwyn gwneud pethau'n iawn, byddwn yn adleoli'r arwyddion ar unwaith ac yn rhoi cyfarwyddiadau wedi'u diweddarau i'r contractwr sy'n gyfrifol am reoli traffig. Byddwn hefyd yn cymryd hyn fel cyfle i ddysgu a gwneud gwelliannau.

Diolch i chi unwaith eto am dynnu ein sylw at y mater hwn. Mae eich adborth yn ein helpu i ddeall beth y gallwn ei wneud yn well i wella ein gwasanaethau.

Cofion gorau,

Ni chadarnhawyd

Annwyl Mr Parry,

Diolch am godi eich pryderon gyda ni. Ysgrifennaf i roi gwybod nad yw eich cwyn wedi'i chadarnhau.

Rwyf am i chi wybod ein bod wedi cymryd amser i edrych yn ofalus ar bopeth y gwnaethoch chi ei rannu.

Ar ôl adolygu'r wybodaeth sydd ar gael, gwelsom fod y mesurau tawelu traffig a osodwyd yn eich ardal wedi'u gweithredu'n gywir yn dilyn asesiad llawn, ymgynghoriad cymunedol, ac archwiliad diogelwch cymeradwy, ac mae'r llif traffig sy'n deillio o hynny yn cyd-fynd â'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl.

Yn seiliedig ar hyn, roedd y camau a gymerwyd ar y pryd yn briodol ac yn unol â'n prosesau.

Rwy'n sylweddoli efallai nad dyma'r canlyniad yr oeddech chi'n gobeithio amdano, ond rwy'n ddiolchgar eich bod wedi rhoi cyfle i ni edrych ar yr hyn a ddigwyddodd.

Diolch eto am gysylltu â ni. Mae eich adborth yn bwysig, ac mae'n ein helpu i barhau i wella ein gwasanaethau.

Cofion gorau,

Cwyn Priffyrdd

Cadarnhawyd

Annwyl Mrs. Griffiths,

Diolch am godi eich pryderon gyda ni. Ysgrifennaf i roi gwybod bod eich cwyn wedi'i chadarnhau.

Ar ôl edrych yn ofalus ar yr hyn a ddigwyddodd, mae'n amlwg na chawsom ni bethau'n iawn i chi. Mae'n wirioneddol ddrwg gennyf am yr effaith a gafodd hyn ac am y rhwystredigaeth a achosodd.

Dangosodd ein hadolygiad na chafodd eich adroddiad am dwll peryglus yn y ffordd ei weithredu o fewn yr amserlen ddisgwyliedig oherwydd gwall logio yn ein system, a arweiniodd at oedi wrth atgyweirio a risg barhaus i ddefnyddwyr y ffordd. Rydym yn cydnabod nad oedd eich profiad yn adlewyrchu'r safon y dylech bob amser allu dibynnu arni.

Er mwyn gwneud pethau'n iawn, byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith atgyweirio, yn adolygu ein prosesau adrodd, ac yn darparu canllawiau ychwanegol i staff er mwyn atal oedi ailadroddus. Byddwn hefyd yn cymryd hyn fel cyfle i ddysgu a gwneud gwelliannau.

Diolch i chi unwaith eto am dynnu ein sylw at y mater hwn. Mae eich adborth yn ein helpu i ddeall beth y gallwn ei wneud yn well i wella ein gwasanaethau.

Cofion gorau,

Ni chadarnhawyd

Annwyl Mr Thomas,

Diolch am godi eich pryderon gyda ni. Ysgrifennaf i roi gwybod nad yw eich cwyn wedi'i chadarnhau.

Rwyf am i chi wybod ein bod wedi cymryd amser i edrych yn ofalus ar bopeth y gwnaethoch chi ei rannu.

Ar ôl adolygu'r wybodaeth sydd ar gael, gwelsom fod yr atgyweiriadau ffyrdd yn eich ardal wedi'u cwblhau yn unol â'n hamserlen cynnal a chadw a'n meini prawf blaenoriaethu. Er efallai bod wyneb y ffordd yn ymddangos yn anwastad, mae'n bodloni'r safonau diogelwch gofynnol.

Yn seiliedig ar hyn, roedd y camau a gymerwyd ar y pryd yn briodol ac yn unol â'n prosesau. Rwy'n sylweddoli efallai nad dyma'r canlyniad yr oeddech chi'n gobeithio amdano, ond rwy'n ddiolchgar eich bod wedi rhoi cyfle i ni edrych ar yr hyn a ddigwyddodd.

Diolch eto am gysylltu â ni. Mae eich adborth yn bwysig, ac mae'n ein helpu i barhau i wella ein gwasanaethau.

Cofion gorau,